

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2021 Rhif 867 (Cy. 203)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 9) 2021**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Mae rheoliad 2A o'r Rheoliadau hynny yn cynnwys esemptiadau i ofynion ynysu a gofynion profi penodol mewn perthynas â chategorïau penodol o deithwyr sydd wedi eu brechu yn erbyn y coronafeirws neu sydd o dan 18 oed.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn darparu nad yw'r esemptiadau yn rheoliad 2A yn rhychwantu personau sy'n teithio o Ffrainc Fetropolitanaid.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall drafftio yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2021 Rhif 867 (Cy. 203)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 9) 2021

*Gwnaed 19 Gorffennaf 2021*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 20 Gorffennaf 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 11.00 a.m. ar 20 Gorffennaf 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 20 Gorffennaf 2021.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

**Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)  
2020**

2. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 2A(2), ar ôl “Atodlen 3A”, mewnosoder “neu Ffrainc Fetropolitanaid”.

4. Yn Atodlen 1, mae paragraff 3 fel y’i mewnosodir gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021(2) wedi ei ailrifo yn baragraff 3A.

*Eluned Morgan*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru  
19 Gorffennaf 2021

---

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193) ac O.S. 2021/863 (Cy. 202).

(2) O.S. 2021/863 (Cy. 202).